

Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol ar Reoli Asedau yn y Sector Cyhoeddus

Argymhelliad 1

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn llunio Cynllun Rheoli Asedau ar gyfer ei hystad weinyddol yn ei chyfanrwydd, (neu ei bod yn diwygio cynnwys yr Adroddiad ar Gyflwr yr Ystad) gyda thargedau priodol, ac yn adrodd yn rheolaidd ar berfformiad yn erbyn y targedau hynny.

Ymateb: Derbyn.

Mae Llywodraeth Cymru'n meddu ar yr holl wybodaeth berthnasol sydd ei hangen i lunio Cynllun Rheoli Asedau. Bydd swyddogion yn cydgrynhoi'r wybodaeth hon i greu Cynllun ffurfiol ar gyfer yr Ystad Weinyddol.

Bydd y cynllun yn cael ei osod ar wefannau Llywodraeth Cymru ac *AssetsCymru* a bydd yn fodel o'r arfer orau i sefydliadau sector cyhoeddus eraill ei ystyried, a'i fabwysiadu os bydd yn briodol.

Nid yw'r adroddiad ar Gyflwr yr Ystad yn gynllun rheoli asedau; ei nod yw rhoi *cipolwg*, ar adeg benodol, ar berfformiad yr ystad weinyddol. Mae adroddiad y Pwyllgor Cyllid wedi codi cwestiynau ynglŷn â'r ffordd y cyflwynwn wybodaeth am ein hystad ac rwy'n ddigon parod i dderbyn yr argymhellion a nodwyd. Ar gyfer yr adroddiad nesaf, ar Gyflwr yr Ystad yn 2012/13, rydym wedi cyflwyno targedau perfformiad penodol a fydd yn parhau i gael eu datblygu a'u dangos yn adroddiadau'r dyfodol.

Goblygiad Ariannol: Dim.

Argymhelliad 2

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn llunio Strategaeth Rheoli Asedau drosfwaol sy'n cynnwys POB ased sydd yn ei meddiant, nid ei hystad weinyddol yn unig. Nid yw hyn yn awgrymu y dylid rheoli'r asedau o'r canol o reidrwydd; ond bod strategaeth glir ar gyfer rheoli'r sail asedau sy'n gysylltiedig ag amcanion a nodau ehangach. Byddai angen i strategaeth o'r fath gael ei hategu gan Gynlluniau Rheoli Asedau unigol ar gyfer pob maes portffolio, (yn enwedig gan yr Is-adran Busnes a Menter) i ddarparu'r hyblygrwydd sydd ei angen i reoli'r asedau ar y lefel hon, yn unol â gofynion a blaenoriaethau pob portffolio.

Ymateb: Derbyn.

Rwy'n cydnabod bod Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol yn rhan allweddol o gynllunio busnes. Mae datblygu Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol i Lywodraeth Cymru yn flaenoriaeth a bydd yn sicrhau bod ein hasedau eiddo yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol i gyflawni amcanion polisi ac i ateb anghenion y busnes. Bydd datblygu'r cynllun strategol trosfwaol hwn yn ategu'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, sy'n cydnabod bod 'a wnelo rheoli asedau eiddo mewn ffordd strategol â chysoni ein sail asedau â nodau ac amcanion corfforaethol a sicrhau bod ein sail asedau tir ac adeiladau wedi'i strwythuro yn y ffordd orau bosibl'.

Mae gwybodaeth ynghylch holl ddaliadau tir ac eiddo Llywodraeth Cymru ar gael ar e-PIMS. Mae gwaith ar y gweill i weld pa mor gyflym y gall manylion unrhyw eiddo gwag gael eu darparu trwy borth mynediad cyhoeddus. Bydd y datblygiad hwn yn sicrhau mwy o dryloywder ynghylch yr asedau tir ac eiddo a ddelir gan Weinidogion Cymru ac ynghylch y ffordd y defnyddir yr asedau hynny.

Er bod cynlluniau Adrannol eisoes yn bodoli, bwriedir paratoi Cynlluniau Rheoli Asedau safonedig ar gyfer pob maes portffolio er mwyn darparu'r hyblygrwydd sydd ei angen i reoli'r asedau ar y lefel briodol, yn unol â blaenoriaethau a gofynion pob portffolio.

Bydd datblygu Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol a chynlluniau Rheoli Asedau Adrannol safonedig yn dangos yn gliriach ddull strategol Llywodraeth Cymru o reoli asedau, yn helpu i annog rhannu gwybodaeth ar draws gwasanaethau cyhoeddus, ac yn sicrhau model o arferion da.

Goblygiad Ariannol: Dim – bydd cost y gweithgarwch yn cael ei thalu o adnoddau presennol a thrwy ailflaenoriaethu gwaith.

Argymhelliad 3

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n adrodd yn ôl yn flynyddol ar sut mae'n gweithio gydag uwch arweinwyr ar draws y sector cyhoeddus i amlygu'r pwysigrwydd a'r manteision a all ddeillio wrth reoli asedau yn gadarn, a diweddarau cofnodion a chynlluniau i'w cadw'n gyfredol.

Ymateb: Derbyn.

Sefydlwyd Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus, sy'n cael ei gadeirio gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, i roi arweiniad cenedlaethol ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus a chydweithio, ac i gyflymu gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Bydd y Gweithgor Asedau Cenedlaethol, o dan gyfarwyddyd y Grŵp Arwain, yn parhau i hyrwyddo pwysigrwydd a manteision rheoli asedau'n effeithiol gan ddefnyddio dulliau priodol. Bydd gwaith y Grwpiau hyn yn cael ei gefnogi gan lywodraeth leol drwy Grŵp Cyflawni Diwygio y Cyngor Partneriaeth sydd hefyd yn cael ei gadeirio gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y

Llywodraeth. Bydd gwaith y Gweithgor Asedau Cenedlaethol yn cael ei gyflwyno'n rheolaidd i'r Grŵp Arwain a'r Grŵp Cyflawni i sicrhau bod ymgysylltu'n parhau a bod camau'n cael eu cymryd.

Bydd y Gweithgor yn parhau i roi ei ddiweddariadau rheolaidd ar gynnydd i'r Grŵp Arwain, yn unol â'r argymhelliad hwn.

Goblygiad Ariannol: Dim.

Argymhelliad 4

Nodwn y cydnabyddir yn eang fod llywodraeth leol – sy'n gorfod llunio cynlluniau rheoli asedau – yn gryfach yn y maes hwn na meysydd eraill o'r sector cyhoeddus. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n ystyried a ddylid ymestyn y gofyniad hwn i lunio cynlluniau rheoli asedau i rannau eraill o'r sector cyhoeddus.

Ymateb: Derbyn.

Rwyf wedi ymrwymo i ddatblygu Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol ar gyfer Llywodraeth Cymru a Chynllun Rheoli Asedau cyfunol ar gyfer yr Ystad Weinyddol. Bydd y ddwy ddogfen hon ar gael fel modelau o'r arfer orau.

Mae fy swyddogion wrthi'n paratoi Protocol Cydgysylltu Ystadau, a fydd yn annog sefydliadau sector cyhoeddus i lunio cynlluniau rheoli asedau i helpu i sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o'r asedau sydd ar gael iddynt.

Goblygiad Ariannol: Dim – bydd cost y gweithgarwch yn cael ei thalu o adnoddau presennol a thrwy ailflaenoriaethu gwaith.

Argymhelliad 5

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cytuno â rhanddeiliaid perthnasol ar gyfres o ddangosyddion sydd wedi'u symleiddio, fel y gellir asesu ac adrodd yn glir a phriodol ar gyflwr a pherfformiad asedau. Wrth wneud hynny, dylid ystyried y gyfres o ddangosyddion a ddefnyddir yn yr Alban a Lloegr. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y ffordd orau o annog, neu orchymyn, casglu neu ddefnyddio dangosyddion y cytunir arnynt yn gyson ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Ymateb: Derbyn.

Mae hyn yn faes eithriadol o gymhleth ac mae rhwystrau mawr i sefydlu un gyfres o ddangosyddion y cytunir arnynt ar gyfer yr holl asedau.

Mae'n rhaid i gyrff y GIG adrodd yn flynyddol drwy System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau Llywodraeth Cymru. Mae'r dangosyddion yn

cynnwys oed yr ystad, cydymffurfiaeth statudol cyflwr ffisegol, defnydd o le, perfformiad o ran ynni ayb.

I greu'r effaith fwyaf o fewn y cyfyngiadau presennol, bydd fy swyddogion yn rhoi sylw i ddatblygu cyfres o ddangosyddion perfformiad y gellid eu defnyddio ar gyfer 'adeiladau swyddfa' ar draws sector cyhoeddus Cymru. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys cysylltu â chyfatebwyr yn yr Alban a Lloegr i weld pa ddangosyddion y maent hwy yn eu defnyddio ac i ystyried sut y gellid defnyddio'r dangosyddion hynny yng Nghymru.

Mae'n bwysig bod y gwaith hwn yn cynnwys adolygiad o'r effaith a'r gwerth a gafwyd o ddefnyddio'r dangosyddion. Bydd yr adolygiad yn ein galluogi i bennu gwerth dangosyddion cyffredin y bwriedir eu gweithredu ar gyfer sectorau eraill, e.e. tir strategol a gedwir ar gyfer datblygu economaidd.

Goblygiad Ariannol: Dim – bydd cost y gweithgarwch yn cael ei thalu o adnoddau presennol a thrwy ailflaenoriaethu gwaith.

Argymhelliad 6

Rydym yn argymhell bod y Gweithgor Asedau Cenedlaethol yn cymryd camau i sicrhau bod pob prosiect cydweithio'n ystyried yn y cyfnod cynnar a oes, neu a ddylai fod, elfen rheoli asedau yn y prosiect.

Ymateb: Derbyn.

Mae'r Gweithgor Asedau Cenedlaethol eisoes yn cydweithio'n agos â rhaglenni fel y Gronfa Buddsoddi i Arbed lle y caiff nifer o brosiectau posibl o'r fath eu nodi. Mae'r meini prawf a ddefnyddir gan y Gweithgor wrth ystyried prosiectau yn cynnwys y potensial ar gyfer gwelliannau ac arbedion effeithlonrwydd mewn gwasanaethau, yn ogystal â'r potensial i ddefnyddio asedau fel arf ar gyfer cyflawni.

Pan nodir cyfleoedd o'r fath, bydd y Gweithgor yn cydweithio'n agos â phrosiectau er mwyn rhoi cyngor a chymorth ar reoli prosiect, ac arweiniad ar yr arferion gorau. Bydd y Gweithgor hefyd yn monitro cynnydd ac yn sicrhau bod gwersi'n cael eu casglu a'u rhannu ar draws y sector cyhoeddus ehangach.

Bydd y Gweithgor yn parhau i ymgysylltu â'r sector cyhoeddus ehangach ac i'w helpu i rannu gwybodaeth â'i gilydd ac â ni. Mae'n hanfodol i arweinwyr y sector cyhoeddus fynd i'r afael â'r agenda fel y gallant weithio i sicrhau'r canlyniad gorau posibl. Ni allwn sicrhau newid sylweddol ar ein pennau ein hunain ac mae cyfraniad Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus a'r Grŵp Cyflawni Diwygio yn allweddol i hyrwyddo ac annog hyn.

Goblygiad Ariannol: Dim.

Argymhelliad 7

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad trylwyr o'r cymhellion a'r anghymhellion sy'n effeithio ar drosglwyddo asedau, o fewn Llywodraeth Cymru ei hun ac yn y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru.

Ymateb: Derbyn.

Yn benodol, credwn fod y ffaith fod cyrff iechyd ond yn gallu cadw'r £500,000 cyntaf yn unig o unrhyw ddêl am asedau yn llesteirio unrhyw weithgarwch ar raddfa fawr. Rydym yn argymell y dylid disodli hyn gyda chyfran y cytunir arni o gyfanswm gwerth yr ased, er mwyn annog trosglwyddiadau strategol ar raddfa fawr, pan fo hyn yn golygu rheoli eiddo'n briodol.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor.

Byddwn yn parhau i adolygu'r ffordd orau o sicrhau bod asedau cyhoeddus Cymru'n cael eu defnyddio mewn ffordd sy'n mwyhau gwerth am arian, a bydd hynny'n cynnwys dadansoddiad o'r cymhellion a'r anghymhellion presennol. Bydd hyn yn cael ei ystyried wrth adnewyddu'r Protocol Trosglwyddo Tir trosfwaol a phrotocolau a chanllawiau sectorau unigol (gan gynnwys GIG Cymru), ac wrth ddatblygu Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol Llywodraeth Cymru. Mae gwaith ar y gweill i gasglu data ar e-PIMS a bydd y gofrestr Mannau Gwag yn arf ddefnyddiol i ategu hyn.

Argymhelliad 8

Rydym yn argymell bod cyrff cyhoeddus yn cael gwell cymhellion i reoli eu hasedau'n effeithiol, drwy sicrhau eu bod yn cael cadw cyfran briodol o unrhyw werth a geir yn sgil trosglwyddo neu waredu.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor.

Argymhelliad 9

Rydym yn argymell y dylid defnyddio Strategaeth Rheoli Asedau Llywodraeth Cymru (fel y cyfeirir ati yn argymhelliad 2) i gynorthwyo i nodi asedau ac eiddo sydd ar gael ar gyfer eu trosglwyddo, naill ai rhwng adrannau, neu i sefydliadau eraill, er mwyn mynd i'r afael â'r gred bod adrannau'n gweithio heb ymwneud ag eraill. Dylid sicrhau bod trosglwyddiadau o'r fath yn cyfrannu at nodau ac amcanion strategol ehangach Llywodraeth Cymru a rhai adrannau unigol. O ystyried y pryderon mewn perthynas ag effaith trosglwyddiadau o'r fath ar gyllidebau adrannau, dylid sefydlu protocolau er mwyn sicrhau pan nodir asedau ar gyfer eu trosglwyddo, nad yw'r adran sy'n trosglwyddo

yn cael ei llesteirio gan unrhyw effaith niweidiol bosibl ar gyllideb eu hadran.

Ymateb: Derbyn.

Mae gwaith wedi cychwyn i fynd i'r afael â'r her o sicrhau'r defnydd gorau posibl o asedau cyhoeddus drwy ddatblygu Protocol Cydgysylltu Ystadau ar gyfer Sector Cyhoeddus Cymru. Yn rhan o hyn, efallai y bydd angen ystyried sicrhau bod mesurau digolledu priodol yn cael eu sefydlu ar gyfer adegau pan fydd trosglwyddo asedau yn anafanteisiol i Adrannau. Caiff hyn ei ystyried yn benodol fel rhan o'r adolygiad o'r Protocol Trosglwyddo Tir presennol, ynghyd ag unrhyw brotocol penodol y gall fod ei angen i gyd-fynd â Chynllun Rheoli Asedau Corfforaethol Llywodraeth Cymru.

Mae'r Ysgrifennydd Parhaol wedi sefydlu Gweithgor Trawslywodraethol ar Dir a fydd yn ystyried sut y gellir defnyddio daliadau tir ac eiddo Llywodraeth Cymru mewn ffordd fwy strategol er mwyn cyflawni blaenoriaethau Gweinidogion, yn enwedig y flaenoriaeth o ddarparu tir ar gyfer tai.

Ar 23 Medi 2013, daeth y Gyfarwyddiaeth Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol newydd i fodolaeth, gan ddwyn swyddogaethau eiddo a chynllunio ariannol strategol ynghyd. Mae cyfle i'r Gyfarwyddiaeth hon wella rheolaeth gwaredu asedau ar draws sector cyhoeddus Cymru er mwyn osgoi gweithio ynysig a datblygu dull mwy cydgysylltiedig.

Goblygiad Ariannol: Bydd protocolau perthnasol yn ymdrin ag unrhyw oblygiadau ariannol sy'n deillio o drosglwyddiadau rhwng adrannau Llywodraeth Cymru.

Argymhelliad 10

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru (drwy'r Gweithgor Asedau Cenedlaethol) yn gwneud mwy i annog sefydliadau sector cyhoeddus i weld asedau fel galluogwyr polisi a darpariaeth gwasanaethau ac i rannu'r arferion da a welir yn y maes hwn.

Ymateb: Derbyn.

Trwy Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus a'r Grŵp Cyflawni Diwygio, bydd gwaith yn parhau i annog uwch arweinwyr cyhoeddus i weld asedau fel galluogwyr i ddarparu gwasanaethau yn fwy effeithiol. Mae gan arweinwyr y sector cyhoeddus gyfrifoldeb i fynd i'r afael â'r agenda hon. Bydd y Gweithgor Asedau Cenedlaethol yn parhau i annog defnyddio e-PIMS fel arf strategol.

Mae adborth o bob rhan o'r sector wedi arwain at ddatblygiad pwysig gan y Gweithgor, sef lansio'r porth rhwydwaith *Assets Cymru*. Mae'r dudalen we yn lle i ddarparu canllawiau arfer orau ac astudiaethau achos ac yn gyfle i gymryd rhan mewn fforymau trafod ac i rannu'r safbwyntiau diweddaraf. Bydd y Gweithgor hefyd yn parhau i gydweithio'n agos â Swyddfa Archwilio Cymru

ac Arfer Da Cymru i sicrhau bod enghreifftiau o arferion da yn cael eu lledaenu'n ehangach ac i sicrhau cynifer o gyfleoedd â phosibl i rannu'r hyn a ddysgwyd.

Goblygiad Ariannol: Dim.

Argymhelliad 11

Fodd bynnag, mae cwestiwn yn codi am gapasiti'r Gweithgor Asedau Cenedlaethol i sbarduno'r agenda hon. Argymhellwn y dylai pob partner ystyried lefel yr adnoddau sy'n ofynnol i gyflawni'r gwaith sy'n ddisgwyliedig gan y Gweithgor, ac a ddylai'r adnodd hwnnw ddod gan Lywodraeth Cymru, neu o gyfraniad wedi'i rannu ymysg yr holl bartneriaid.

Ymateb: Derbyn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu'r adnoddau y mae angen i wasanaethau cyhoeddus eu cyfrannu i helpu i sbarduno'r agenda hon. Dull y Gweithgor, o dan gyfarwyddyd y Grŵp Arwain, yw darparu cydraglen o weithgarwch i sicrhau gwelliant yn narpariaeth gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru. Yn y cyd-destun hwn, mae'n briodol bod y sector cyhoeddus cyfan yn cyfrannu'r adnoddau sy'n ofynnol i gyflawni'r agenda gyffredin hon.

Anogir arweinwyr gwleidyddol ac uwch arweinwyr i gymryd rhan a chyfrannu, ond hyd yma mae lefel diddordeb a chyfranogiad partneriaid eraill wedi bod yn amrywiol a dim ond nifer fach o sefydliadau sydd wedi cyfranogi'n llawn. Er mwyn gwireddu'r cyfleoedd a gynigir gan waith y Gweithgor, disgwyliwn weld mwy o ddiddordeb ac ymrwymiad gan yr holl bartneriaid.

Mae'n briodol bod y Gweithgor yn ystyried dod o hyd i adnoddau penodedig fesul rhanbarth ac/neu sector i helpu i gyflawni'r agenda hon. Bydd y Grŵp Arwain yn parhau i adolygu unrhyw oblygiadau a ddaw i'r amlwg o ran adnoddau.

Goblygiad Ariannol: Dim, ond bydd y Grŵp Arwain yn parhau i adolygu hyn.

Argymhelliad 12

Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn credu bod ei dull yn cyflawni manteision tebyg i ddull mwy canolog Llywodraeth yr Alban, heb y costau a delir ymlaen llaw o sefydlu corff newydd. Fodd bynnag, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n parhau i fonitro canlyniadau y ddau ddull er mwyn sicrhau bod Cymru'n cael manteision tebyg.

Ymateb: Derbyn.

Mae'r dull canolog a fabwysiadwyd gan Scottish Model yn golygu costau rhedeg sylweddol ac mae cylch gwaith yr asiantaeth hyd braich hefyd yn ehangach na chwmpas y Gweithgor ar hyn o bryd. Yn ogystal, mae'r buddsoddiad yn y fath gorff yn fwy na'r hyn sy'n bosibl i ni yn yr hinsawdd ariannol bresennol. O ystyried lefel y buddsoddiad hyd yma, mae'r Gweithgor wedi gwneud cynnydd da. Oherwydd hyn, rwy'n dal i gefnogi'r dull presennol o ddefnyddio'r Gweithgor fel sbardun i wella rheoli asedau drwy nodi, annog, hwyluso a dylanwadu ar ddulliau ariannu posibl a thrwy sefydlu dulliau cyflawni priodol y gall sefydliadau eu defnyddio. Byddwn yn edrych ar gynnydd mewn manau eraill, yn enwedig o ran gorfodi, er mwyn ystyried yr effaith gymharol a ph'un a ellid gweithredu'r fath ddatblygiadau yng Nghymru.

Byddwn yn parhau i fonitro manteision y gwaith ac i ddarparu diweddariadau rheolaidd.

Goblygiadau Ariannol: Dim.

Argymhelliad 13

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio drwy Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus i sicrhau bod enghreifftiau o arferion da yn cael eu rhannu, nid yn unig ymysg y rhai ym maes rheoli asedau, ond hefyd ymysg uwch arweinwyr er mwyn sicrhau bod enghreifftiau da yn cael eu rhoi ar waith.

Ymateb: Derbyn.

Croesewir cefnogaeth y Pwyllgor i ddull presennol Llywodraeth Cymru. Byddwn yn rhannu enghreifftiau o arferion da mor eang â phosibl drwy gydweithio â Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus i annog mwy o sefydliadau i fabwysiadu cynigion am brosiectau arfer da sydd wedi hen brofi eu gwerth. Yn benodol, byddwn yn parhau i gyhoeddi a hyrwyddo astudiaethau achos o brosiectau. Mae astudiaethau o'r fath wedi'u cyhoeddi ar gyfer gwahanol brosiectau gan gynnwys rhai sy'n cael arian Buddsoddi i Arbed fel prosiect Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i ad-drefnu ei ystad, gorsaf wybodaeth Casnewydd yn Un a'r prosiect gosodiadau Solar Ffotofoltäig i arbed ynni yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Byddwn yn parhau i ymwneud â'r Gyfnewidfa Arfer Da ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru ac i ddatblygu *Assets Cymru*, y porth rhwydwaith rheoli asedau a ddatblygwyd gan y Gweithgor Asedau Cenedlaethol i wella'r cyfathrebu ynghylch gwella'r ffordd y rheolir eiddo ac asedau. Bydd mwy o astudiaethau achos yn cael eu cyhoeddi yr hydref hwn mewn cyhoeddiad Buddsoddi i Arbed newydd, a hefyd yn y Flwyddyn Newydd yn rhan o'r gwerthusiad diweddaraf o'r Gronfa Buddsoddi i Arbed.

Mae'r Gweithgor Asedau Cenedlaethol wedi datblygu strategaeth reoli rhanddeiliaid i sicrhau bod negeseuon priodol yn cael eu targedu at randdeiliaid perthnasol, i wella'u dealltwriaeth o rôl rheoli asedau yn y gwaith o ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus.

Bydd Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus a'r Grŵp Cyflawni Diwygio yn rhoi arweiniad gwleidyddol a gweithredol i yrru'r agenda rheoli asedau ymlaen. Er enghraifft, mae'r Gweithgor yn ystyried ar hyn o bryd y symiau y gellid eu harbed o ganlyniad i welliannau i Reoli Fflydoedd. Gwnaeth y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth drafod hyn yn ddiweddar yn y Grŵp Cyflawni Diwygio er mwyn annog sefydliadau i gymryd camau priodol i wireddu'r arbedion sy'n bosibl yn eu rhanbarthau ac i adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf. Mae cyfranogiad brwd sefydliadau sy'n bartneriaid yn allweddol i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei lledaenu mor eang â phosibl.

Goblygiad Ariannol: Dim.

Argymhelliad 14

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n ystyried a ellid sicrhau bod yr arbenigedd sydd ganddi eisoes ymysg ei staff ei hun ar gael yn ehangach i gyrff eraill yn y sector cyhoeddus, a dylai bwysu a mesur y posibilrwydd o secondiadau i/o feysydd eraill o'r sector cyhoeddus.

Ymateb: Derbyn.

Mae arbenigedd eisoes yn cael ei rannu drwy waith y Gweithgor Asedau Cenedlaethol cyn belled ag y bo'n ymarferol. Mae'r adnoddau sydd ar gael yn nhimau proffesiynol y Llywodraeth yn annigonol i gynorthwyo'r holl weithgareddau a bydd angen i unrhyw ystyriaeth o'r fath bwysu a mesur yr adnoddau sydd eu hangen ar Adrannau'r Llywodraeth a'r effeithiau cysylltiedig o ran cyflawni polisiau. Byddai unrhyw ddull gweithredu hefyd yn dibynnu'n drwm ar gyfranogiad partneriaid yn y sector cyhoeddus ehangach.

Mae'r Gweithgor yn ymchwilio i'r posibiliadau o rannu sgiliau proffesiynol ar draws y sector, drwy gasglu manylion sefydliadau sy'n barod i gynnig gwasanaethau ar sail eu sgiliau a'u harbenigedd presennol. Mae gwaith ar y gweill i weld a oes cyfleoedd i letya cronfa ddata ganolog ar *Assets Cymru*. Bydd hyn yn dibynnu ar drafodaethau pellach â'r sector cyhoeddus ehangach.

Goblygiad Ariannol: Dim.